# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 19EG CHWEFROR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 9 Chwefror 2024)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2023 a 10 Ionawr, 2024 (Cyfarfod Arbennig) fel rhai cywir.

## 5. DYLETSWYDDAU ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU 13 - 15

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

## 6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU 16 - 21

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU 2022-23 22 - 39

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

# PWYLLGOR SAFONAU, 6/11/23

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dewi Owen.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Mehefin, 2023 fel rhai cywir.

**5. TREFN DATRYS LLEOL**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- Dderbyn newidiadau arfaethedig i'r Drefn Datrys Lleol (fel yr amlygir yn Atodiad 1 i'r adroddiad) i adlewyrchu dyfodiad y ddyletswydd statudol newydd ar gyfer Arweinyddion Grwpiau, a'u hargymell i'r Cyngor llawn;
- Gefnogi ei fwriad i fynnu defnydd ffurflen gwynion (Atodiad 2) fel rhan o'r gyfundrefn Datrys Lleol.

Gwahoddwyd sylwadau / cwestiynau gan yr aelodau.

Nodwyd bod raid penderfynu ar ryw bwynt a yw cŵyn yn addas i'w datrys yn lleol, neu a ddylai gael ei chyfeirio at yr Ombwdsmon, a holwyd oni ddylid cynnwys y cam hwnnw yn y broses yn rhywle.

Holwyd ai polisi Cyngor Gwynedd oedd bod rhaid i bob cŵyn gan y cyhoedd gael ei chyfeirio at yr Ombwdsmon, oherwydd y gellid dadlau y byddai'n well ymdrin â rhai mân gwynion cyhoeddus lefel isel drwy'r Drefn Ddatrys Lleol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Er na ellid rhoi data ar hyn, bod tueddiad yn gyffredinol i anfon cwynion cyhoeddus at yr Ombwdsmon am ddau reswm, sef nad oedd bob amser yn hawdd adnabod natur y pryder a bod angen adnoddau ar gyfer ymchwilio i mewn i'r cwynion hynny.
- Nad oedd y drefn bresennol wedi'i dylunio ar gyfer ymdrin â chwynion cyhoeddus, ac er y byddai yna rinweddau o fynd i lawr y lôn honno, byddai'n rhaid sicrhau proses sy'n gweithio ac yn cynnal hyder y cyhoedd ynddi.

Awgrymwyd y dylai'r ffurflen gwynion ofyn i'r achwynydd ddatgan pa allbwn mae ef/hi yn ei geisio fel canlyniad i'r gŵyn. O bosib' bod yr achwynydd yn chwilio am ymddiheuriad yn unig, neu'n dymuno i'r sawl y mae'n cwyno amdano weld y sefyllfa o'i bersbectif ef/hi. Credid y byddai gofyn y cwestiwn o gymorth o ran penderfynu sut i ymdrin â chwynion gan y byddai'n amlygu nad yw pob cŵyn gyhoeddus yn drwm ar adnoddau a bod modd cael datrysiad syml a chyflym ar gyfer aelodau'r cyhoedd mewn rhai achosion.

Nodwyd bod y fersiwn Saesneg o baragraff 3 o Atodiad 1 i'r adroddiad yn wallus a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'n gwirio ac yn gwneud addasiadau i sicrhau bod y geiriad yn darllen yn gywir.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn y newidiadau arfaethedig i'r Drefn Datrys Lleol i adlewyrchu dyfodiad y ddyletswydd statudol newydd ar gyfer Arweinyddion Grwpiau, a'i hargymell i'r Cyngor llawn.**
2. **Cefnogi bwriad y Swyddog Monitro i fynnu defnydd ffurflen gwynion fel rhan o'r gyfundrefn Datrys Lleol, fel sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 i'r adroddiad, gyda'r ychwanegiad bod y ffurflen yn gofyn i'r achwynydd ddatgan pa allbwn mae ef/hi yn ei geisio fel canlyniad i'r gŵyn.**

## 6. GWEITHDREFN WRANDAWIADAU I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn gwahodd y pwyllgor i gymeradwyo addasiadau i'r Weithdrefn Wrandawiadau i'r Pwyllgor Safonau ynghyd â'r daflen wybodaeth gysylltiedig, yn sgil profiad gwrandawiadau diweddar.

Diolchodd y Swyddog Monitro i'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau am ei waith gan nodi ei fod yn croesawu ac yn argymell i'r Pwyllgor gefnogi'r diwygiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau am gyflwyno darn o waith proffesiynol iawn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r addasiadau i'r Weithdrefn Wrandawiadau i'r Pwyllgor Safonau ynghyd â'r daflen wybodaeth gysylltiedig.**

## 7. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn manylu ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ac yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor.

Gan gyfeirio at y datganiadau ar y gofrestr gyfredol, pwysleisiodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau nad oedd y 2 aelod dan sylw yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, eithr yn aelodau lleol oedd wedi cael cynnig o rodd ar ôl i'r penderfyniadau gael eu gwneud.

Nododd y Swyddog Monitro fod yr adroddiad yn adlewyrchu nad yw bob amser yn hawdd ymdrin â sefyllfaoedd fel hyn. Nododd hefyd fod y datganiad gwrthod yn galonogol gan ei bod yn allweddol bod unrhyw rodd sy'n cael ei chynnig, boed yn cael ei derbyn ai peidio, yn cael ei chofnodi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eglurwyd nad oedd lletygarwch a ddarperir i aelodau wrth wasanaethu ar gyrff allanol yn rhodd gan drydydd parti, e.e. cynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu gyfarwyddwyr Adra, a bod gan y cyrff hynny eu Cod Ymddygiad a'u trefniadau penodol eu hunain. Er hynny, byddai'n cynghori y dylai unrhyw aelod sy'n ansicr o'u sefyllfa gofrestru beth bynnag.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.**

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried a fyddent yn dymuno i'r materion hyn gael eu trin fel eitem eithriedig yn y dyfodol, fel bod modd cyflwyno'r wybodaeth gyflawn a ddarperir gan yr Ombwdsmon i alluogi'r Pwyllgor i drafod yn fanylach oblygiadau'r penderfyniadau o safbwynt dehongli'r Cod Ymddygiad.

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod opsiwn o fynd yn gaeedig, ond nad oedd yn siŵr pa werth fyddai'n ychwanegu i'r Pwyllgor o gael y manylion ynglŷn â phwy yw'r unigolion a'r cynghorau dan sylw, ayb.
- Bod y swyddogion yn ymwybodol o'r adroddiad gwreiddiol lle mae problem wedi codi, a phetai angen cysylltu, e.e. i drafod sefyllfa cynghorydd, gellid gwneud hynny.
- Pe byddai yna batrwm yn codi, e.e. mewn cyngor penodol, y byddai'n ofalus ynglŷn â dod â hynny gerbron y Pwyllgor beth bynnag oherwydd y gallai achos yn ymwneud â'r cyngor hwnnw ymddangos gerbron gwrandawiad o'r Pwyllgor Safonau maes o law.

Gwahoddwyd sylwadau/cwestiynau gan yr aelodau.

Nodwyd bod geiriad achosion 202303259 & 202303399 yn amwys oherwydd y cyfeirir at y cynghorydd fel '*ef*' yn y frawddeg gyntaf, ond fel '*hi*' yn y frawddeg ganlynol.

Awgrymwyd nad oedd yr hyfforddiant wedi gwella dim ar y sefyllfa yng Nghyngor Tref Tywyn, lle mae mân achosion yn codi'n gyson. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Bod rhain yn gwynion sydd ddim yn mynd ymlaen i ymchwiliad, ac sy'n awgrymu, efallai, bod yr hyfforddiant wedi gweithio.
- Nad oedd modd osgoi cwynion yn gyfan gwbl, ac o bosib', nad oedd bodolaeth y cwynion yma yn yr adroddiad yn creu darlun mor ddu â hynny.

Nodwyd na ddeellid pam bod yr Ombwdsmon, ar ôl canfod bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, yn penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt. Pryderid bod hynny'n gallu arwain at sefyllfaoedd gwaeth yn y dyfodol, ac awgrymwyd y dylai unrhyw achos, waeth pa mor fach, gael ei ymchwilio iddo os yw'r cynghorydd dan sylw wedi torri'r Cod yn flaenorol. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro:-

- Nad oedd yn anghytuno â'r sylw, ond bod cynghori ar gwynion yn anodd ar yr adegau hynny pan fo cynghorydd yn amlwg wedi torri'r Cod, ond nad oes budd

cyhoeddus, efallai, mewn cymryd camau mewn perthynas â'r materion yr ymchwiliwyd iddynt.
- Bod yr Ombwdsmon a'i swyddogion hefyd yn wynebu tasg anodd yn cloriannu'r cwynion ac yn dod i gasgliad ynglŷn â pha rai sydd angen ymchwilio iddynt.
- Bod Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon yn amlygu bod yna bwyslais mawr ar barch a chydraddoldeb, ac o bosib' mai dyna'r achosion y mae'r Ombwdsmon fwyaf tebygol o ymchwilio iddynt, a hefyd fwyaf tebygol o gymryd camau yn y budd cyhoeddus.

Gan gyfeirio at achos 202201791, nodwyd bod awgrym gan yr Ombwdsmon nad oedd y cyngor a roddwyd gan y Clerc mor glir ag y gallai fod, a holwyd a oedd y swyddogion wedi nodi bod angen darparu hyfforddiant i'r Clerc ar hynny. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau fod hynny wedi'i nodi. Nododd yn ogystal bod achosion o'r fath yn gallu bod yn ddefnyddiol i'r swyddogion o ran paratoi hyfforddiant gan ei fod yn amlygu'r hyn sy'n digwydd ar lawr daear a lle mae'r gwendidau.

Nodwyd bod y gwaith ymchwil a gwblhawyd y llynedd gyda detholiad o glercod cynghorau tref a chymuned parthed y Fframwaith Safonau Moesegol wedi amlygu mai ychydig iawn ohonynt sydd â chymhwyster penodol i fod yn cynghori. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod rôl y clerc yn cyfateb i Brif Weithredwr o ran ystod y dyletswyddau, os nad eu maint, a bod yna heriau yn gallu codi ynglŷn â'r swydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a pharhau i gyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Safonau mewn ffurf crynodebau heb fanylion penodol.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd - adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu adroddiad blynyddol yr Ombwdsmon am y flwyddyn 2022-23.

Nododd y Swyddog Monitro:-

- Y gwelwyd gostyngiad yn nifer y materion Cod Ymddygiad, ond bod pryder mwyaf yr Ombwdsmon ynghylch materion parch a chydraddoldeb, gydag oddeutu 67% o'r cwynion a dderbynnir yn ymwneud â'r agwedd yma.
- Ei bod yn anodd tynnu unrhyw negeseuon penodol o'r adroddiad, ond y deellid, o drafodaethau gyda swyddogion yr Ombwdsmon, eu bod yn edrych ar y patrymau cwynion sy'n deillio o'r Adroddiad Blynyddol, ac o bosib', y ceid gwybodaeth bellach fyddai o gymorth i fframio hyfforddiant, ond hefyd y drafodaeth gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol.

Gan gyfeirio at y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (tudalen 124 o'r adroddiad / tudalen 177 o'r rhaglen), nododd y Cadeirydd fod y perfformiad o ran achosion a gaewyd o fewn 12 mis wedi llithro fymryn o 67% yn 2021/22 i 66% yn 2022/23, o gymharu â'r targed o 90%, a holwyd a ddylid gwneud sylw i'r Ombwdsmon bod y Pwyllgor yn bryderus ynglŷn â'r llithriad hwn. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro nad oedd yn glir beth oedd wedi achosi hyn, ond y gallai gysylltu â swyddogion yr Ombwdsmon i gael esboniad o'r ffactorau sydd wedi arwain at y sefyllfa, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00yb a daeth i ben am 10.50yb.

# CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SAFONAU, 10/01/24

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Mark Jones a Mr Dave Wareing.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dawn Jones (ar gyfer eitem 4) a'r Cynghorydd Gwynfor Owen (ar gyfer eitem 5).

Croesawyd y Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen i'r cyfarfod.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dewi Owen a Mr Richard Parry Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Mr Aled Jones fuddiant personol yn eitem 5 gan ei fod yn adnabod y Cynghorydd Gwynfor Owen yn bersonol ac yn broffesiynol trwy ei waith.

Roedd yr aelod o'r farn bod y buddiant hwn yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Roedd gan y Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen fuddiant personol yn eu ceisiadau eu hunain ond bod y Pwyllgor Safonau wedi caniatáu goddefeb gyffredinol sy'n caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau er diben ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'u cais yn unig. Gadawodd yr aelodau y cyfarfod wedi ymdrin â chwestiynau.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CAIS AM ODDEFEB – Y CYNGHORYDD DAWN JONES**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais am oddefeb gan y Cynghorydd Dawn Jones i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd.

Cyn ystyried y cais, gosododd y Swyddog Monitro y cyd-destun gan nodi bod y Pwyllgor Safonau wedi mabwysiadu trefn sy'n caniatáu i ymgeiswyr am oddefebau fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau posib' gan y pwyllgor yn unig.

Yna manylodd y Swyddog Monitro ar y cais dan sylw, gan nodi:-

- Bod y Cynghorydd Dawn Jones wedi datgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn y mater oherwydd bod unigolion yr oedd ganddi gysylltiad personol agos â hwy yn derbyn y gwasanaethau oedd yn destun y craffu.
- Bod y cais yn cael ei gyflwyno ar sail (dd) o'r rheoliadau perthnasol, sef "*os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod*".
- Er bod y Cynghorydd Dawn Jones yn gweithio i Sylfaen Cymunedol, sef cwmni sy'n darparu prosiectau cymunedol i gefnogi pobl ifanc ar draws Môn, Conwy a Gwynedd ac sy'n anorfod yn dod i gyswllt â phobl ifanc ag awtistiaeth, o drafod gyda'r aelod, ni ystyrid bod natur na lefel yr ymwneud yma yn cael ei effeithio gan yr hyn sydd dan sylw.
- Nad rôl cynghori na rhoi arweiniad oedd rôl aelodau'r Grŵp Tasg, ond yn hytrach adolygu'r maes, ac er na fyddent yn gwneud penderfyniadau, byddai eu hadroddiad yn dylanwadu ar gyfeiriad craffu'r maes.
- Bod canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi bod angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd o ran atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp gweddol gynrychioliadol o aelodau'r Cyngor.
- Pe dymunai'r Pwyllgor ganiatáu'r cais, dylai fod yn fodlon bod gan yr aelod rôl neu arbenigedd penodol yn y maes fyddai'n cyfrannu at waith y Grŵp Tasg.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Monitro.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Dawn Jones.

Yna gadawodd y Cynghorydd Dawn Jones y cyfarfod.

Wrth drafod y cais, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn:-

- Bod y Cynghorydd Dawn Jones wedi gweithio hefo plant a phobl ifanc ers 34 o flynyddoedd ac wedi cefnogi teuluoedd lle mae plentyn neu berson ifanc yn aros am asesiad a diagnosis o awtistiaeth ers 15 mlynedd.
- Ei bod hefyd wedi mynychu nifer o gyrsiau hyfforddiant proffesiynol yn y maes awtistiaeth.

Cytunodd y Pwyllgor fod yr aelod yn cyrraedd y trothwy o ran arbenigedd penodol yn y maes ac y dylid caniatáu goddefeb iddi eistedd ar y Grŵp Tasg.  Awgrymwyd, fodd bynnag, na ddylai gael ei phenodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.

**PENDERFYNWYD caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Dawn Jones gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd, a hynny ar yr amod nad yw'n cael ei phenodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.**

## 5. CAIS AM ODDEFEB – Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried a phenderfynu ar gais am oddefeb gan y Cynghorydd Gwynfor Owen:-

- I gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd.
- I dderbyn goddefeb gyffredinol fyddai'n caniatáu iddo siarad a phleidleisio ar unrhyw achlysur y byddai'r mater yn codi.

Manylodd y Swyddog Monitro ar y cais dan sylw, gan nodi:-

- Bod y Cynghorydd Gwynfor Owen wedi datgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn y mater oherwydd bod unigolyn yr oedd ganddo gysylltiad personol agos ag ef yn derbyn y gwasanaethau oedd yn destun y craffu.
- Bod y cais yn cael ei gyflwyno ar sail (ch),(dd) ac (e) o'r rheoliadau perthnasol, sef *"os yw natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal"; "os oes cyfiawnhad i'r aelod gymryd rhan yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo oherwydd rôl neu arbenigedd penodol yr aelod"* ac *"os yw'r busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo i'w ystyried gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r awdurdod perthnasol ac nad yw buddiant yr aelod yn fuddiant ariannol".*
- Nad rôl cynghori na rhoi arweiniad oedd rôl aelodau'r Grŵp Tasg, ond yn hytrach adolygu'r maes, ac er na fyddent yn gwneud penderfyniadau, byddai eu hadroddiad yn dylanwadu ar gyfeiriad craffu'r maes.
- Bod canllawiau'r Ombwdsmon ar y Cod Ymddygiad yn nodi bod angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd o ran atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp gweddol gynrychioliadol o aelodau'r Cyngor.
- Pe dymunai'r Pwyllgor ganiatáu'r cais, dylai fod yn fodlon bod gan yr aelod rôl neu arbenigedd penodol yn y maes fyddai'n cyfrannu at waith y Grŵp Tasg.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Monitro.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau i'r Cynghorydd Gwynfor Owen.

Yna gadawodd y Cynghorydd Gwynfor Owen y cyfarfod.

Wrth drafod y cais am oddefeb i eistedd ar y Grŵp Tasg, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ffactorau a ganlyn:-

- Bod gan y Cynghorydd Gwynfor Owen brofiad o ymwneud â'r maes awtistiaeth y tu hwnt i brofiad teulu, gan ei fod yn delio gydag amryw o rieni sydd â phlant ag awtistiaeth yn ei ward, a hefyd yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Hafod Lon, sydd â chyfran uchel o'r plant wedi cael diagnosis o awtistiaeth.
- Ei fod hefyd wedi mynychu cyrsiau ar awtistiaeth i rieni ac wedi bod i gyfarfodydd ynglŷn ag awtistiaeth.

Cytunodd y Pwyllgor fod yr aelod yn cyrraedd y trothwy o ran arbenigedd penodol yn y maes ac y dylid caniatáu goddefeb iddo eistedd ar y Grŵp Tasg.  Awgrymwyd, fodd bynnag, na ddylai gael ei benodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.

Wrth drafod y cais am oddefeb gyffredinol i siarad a phleidleisio ar unrhyw achlysur y bydd y mater yn codi, mynegwyd y farn gan aelodau bod y cais presennol yn llawer rhy eang i'w ganiatáu gan nad oedd yna wybodaeth ddigonol ynglŷn â chyfnod yr oddefeb nac ym mha gyd-destun y byddai'r mater yn codi.  Gan hynny, ni ystyrid bod y cais yn cyrraedd y trothwy o ran caniatáu goddefeb.

**PENDERFYNWYD**

**(1) Caniatáu goddefeb i'r Cynghorydd Gwynfor Owen gynrychioli'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal i drafod gweithredu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd, a hynny ar yr amod nad yw'n cael ei benodi yn Gadeirydd y Grŵp Tasg.**

**(2) Gwrthod goddefeb i'r Cynghorydd Gwynfor Owen siarad a phleidleisio ar unrhyw achlysur y bydd y mater hwn yn codi gan nad oedd yna ddigon o wybodaeth ynglŷn â'r cais i ddod i gasgliad priodol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 11.40yb.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **19 Chwefror 2024** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Y Ddeddf”)**<br>**Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a’r Pwyllgor Safonau.** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

Mae’r Ddeddf yn gosod dau brif ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol (“Arweinyddion”) mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau trwy Adran 62. Y dyletswyddau yw:

- I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o’u grŵp.
- Cydweithio gyda’r Pwyllgor Safonau wrth iddo weithredu ei swyddogaethau.

Yn ogystal, mae swyddogaethau’r Pwyllgor Safonau yn cael eu hymestyn i gynnwys:

- Monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion â’r ddyletswydd.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Arweinyddion ar y ddyletswydd.

Mae’r ddyletswydd newydd bellach wedi dod i rym ers Mai 2022 sydd yn gosod gofyn positif ar Arweinyddion i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal ymddygiad. Bydd hyn yn golygu cyd-weithio rhwng y Pwyllgor Safonau ac yr Arweinyddion. Gall hyn fod yn gam cadarnhaol i gefnogi safonau ymddygiad aelodau ac i ddatrys materion yn gynnar.

Mabwysiadwyd Protocol gan y Pwyllgor yn Nhachwedd 2022

Rhaglen ar gyfer Pwyllgor Safonau ar Dydd Llun, 21ain Tachwedd, 2022, 10.30 y.b. (llyw.cymru)

**2. Cyfrifoldebau Pwyllgor Safonau**

Mae'r newidiadau statudol hefyd yn gosod gofyn ar y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth a’r dyletswydd fel y nodir uchod ac adrodd ar hyn fel rhan o’r adroddiad blynyddol. Er hwyluso a sicrhau proses gytbwys a theg aethpwyd ati felly i sefydlu meini prawf ar gyfer mesur cyflawniad. Defnyddiwyd awgrymiadau oedd wedi eu paratoi yn genedlaethol fel man cychwyn . Adolygwyd y rhain mewn sesiwn briffio rhwng aelodau y Pwyllgor ac Arweinyddion y Grwipau Gwleidyddol. Mae’r meini prawf sydd yn cael eu hargymell wedi ei atodi yn Atodiad 1 ynghyd a ffurf adroddiad yn Atodiad 2.

**Argymhelliad**

**Cymeradwyo y meini prawf ar gyfer monitro ac adrodd, Atodiad 1 ynghyd a’r templed ffurflen adrodd ( Atodiad 2 )**

**Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol**
**Meini Prawf Ar Gyfer Monitro Ac Adrodd**

Mae adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 fel y'i diwygiwyd gan adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn ei gwneud yn ofynnol i arweinydd gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru -

1. cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp, a
2. rhaid cydweithio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor ( ac unrhyw is-bwyllgor o'r Pwyllgor) wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Mae'r Canllawiau Statudol ac Anstatudol yn cynnwys yn Rhan 2 y gofynion i sefydlu - "y trothwy y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei ddefnyddio i sefydlu a yw'n fodlon bod Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol wedi cydymffurfio â dyletswyddau Deddf 2021."

1. Arweinwyr Grwpiau i sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn,
2. Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau i gefnogi y Swyddog Monitro I i drefnu fod- Aelodau o fewn eu grŵp ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro yn ôl yr angen,
3. Arweinwyr Grwpiau i cymryd camau gyda'r amcan fod Aelodau yn eu grŵp yn cydweithio â'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau pan gyfeirir mater at y Swyddog Monitro a/neu'r Pwyllgor Safonau,
4. Arweinwyr Grwpiau i gofnodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn eu Grwpiau a'u codi gyda Swyddog Monitro AU mewn modd amserol.
5. Arweinwyr grwpiau i gefnogi presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi.
6. Arweinwyr Grŵp i gwblhau profforma Arweinydd y Grŵp, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen,
7. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol (yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ~~)~~ yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol),
8. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r swyddog Monitro bob tri mis a ~~a~~ Chadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith ystod pob blwyddyn Cyngor. .

## HYRWYDDO CYDYMFFURFIAETH GYDA’R COD YMDDYGIAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adroddiad | | | |
| Grwp Gwleidyddol: | | | |
| Nifer o Aelodau | | Nifer wedi ei hyfforddi ar y Cod | |
| | | | |
| Cyfnod | | | |
| Statws Cwynion | | | |

| | |
|---|---|
| 1.Arweinwyr Grwpiau i sicrhau eu bod ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Safonau yn ôl y gofyn, | |
| 2.Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau i gefnogi y Swyddog Monitro  i drefnu fod  Aelodau o fewn eu grŵp ar gael i gwrdd â'r Swyddog Monitro yn ôl yr angen, | |
| 3.Arweinwyr Grwpiau i cymryd camau gyda’r amcan  fod Aelodau yn eu grŵp yn cydweithio â'r Swyddog Monitro a'r Pwyllgor Safonau pan gyfeirir mater at y Swyddog Monitro a/neu'r Pwyllgor Safonau, | |
| 4.Arweinwyr Grwpiau i gofnodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder yn eu Grwpiau a'u codi gyda Swyddog Monitro AU mewn modd amserol. | |
| 5.Arweinwyr grwpiau i gefnogi presenoldeb Aelodau mewn digwyddiadau hyfforddi. | |
| 6. Arweinwyr Grŵp i gwblhau proforma Arweinydd y Grŵp, gan hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad, yn ôl yr angen | |
| 7. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r Pwyllgor Safonau yn flynyddol (yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor Safonau ) yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol), | |
| 8. Arweinwyr Grwpiau i gyfarfod â'r swyddog Monitro bob tri mis  a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau unwaith ystod pob blwyddyn Cyngor. . | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **19 Chwefror 2024** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ceir crynodebau o'r penderfyniadau a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon fel **Atodiad**

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

**[Cyfieithiad ]**

**Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2)**
**Deddf Llywodraeth Leol 2000**
**Rhif Achos: 202205952**

## Crynodeb o'r gŵyn

Honnir bod yr Aelod wedi cynnal ymgyrch casineb Cyfryngau Cymdeithasol parhaus yn erbyn yr achwynydd ers 2017. Dywedodd yr achwynydd fod brawd yr Aelod wedi ei fygwth oherwydd ei fod wedi ysgrifennu at y Cyngor, ac mae hyn wedi cael sylw gan yr Heddlu. Dywed yr achwynydd fod eraill wedi bod yn dyst i'r ymddygiad, ond nid yw wedi nodi'r hyn a welwyd na darparu datganiadau. Felly, ni allaf ystyried a fyddai’r ymddygiad, hyd yn oed os caiff ei brofi, yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad. Mae hefyd yn nodi bod y tystion honedig yn gysylltiedig â'r Cyngor ac yn ymwybodol o'r broses Cod Ymddygiad. Mae'n agored iddynt wneud cwyn os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

## Yr hyn rydym yn ei wneud

Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i dorri'r Cod, mae'r Ombwdsmon yn cymhwyso prawf dau gam. Y cam cyntaf yw ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai toriad o'r Cod fod wedi digwydd. Mae'r ail gam yn ystyried a yw er budd y cyhoedd i gynnal ymchwiliad i'r materion y cwynwyd amdanynt. Mae hyn yn golygu ystyried nifer o ffactorau budd y cyhoedd megis difrifoldeb yr ymddygiad honedig, p'un a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, iddynt hwy eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd, a oes angen ymchwiliad i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig, a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu a yw, pe bai'n cael ei brofi, byddai atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol.

## Fy mhenderfyniad

**1. A oes tystiolaeth i awgrymu y bu torri'r Cod Ymddygiad.**

Ni ddarparwyd tystiolaeth i gadarnhau'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gryf i awgrymu bod yr aelod dan sylw wedi torri'r Cod.

Dylid nodi hefyd na all yr Ombwdsmon ystyried gweithredoedd brawd yr Aelod a'r corff priodol i ystyried cwynion o'r natur honno yw'r Heddlu.

**2. A oes angen ymchwiliad er budd y cyhoedd**

Gan nad oes tystiolaeth wedi'i darparu, o dorri'r Cod Ymddygiad, nid oes angen ymchwiliad.

## Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.

**Sinead Cook**
Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol/Assistant Investigation Manager

4 January 2023

## Penderfyniad a gyhoeddwyd o dan baragraff 69(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 Rhif Achos:202306169

### Crynodeb o'r gŵyn

Honnwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor fod yr Aelod wedi ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd X mewn ffordd oedd yn ddiangen, yn drafferthus, yn sarhaus ac yn tanseilio Cynghorydd X. Dywedir bod yr Aelod wedyn wedi bychanu'r Cynghorydd X a dangos amharch iddo wrth ddefnyddio termau fel "asgell dde eithafol" a "gwleidyddiaeth wenwynig" gan niweidio enw da'r Cynghorydd X yn bwrpasol.

Dewisodd yr aelod gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon i'w ystyried yn hytrach na mynd drwy Benderfyniad Lleol y Cyngor.

### Sut rydym yn penderfynu a ddylid ymchwilio

I benderfynu a ddylid ymchwilio i achos o dorri'r Cod, rhown brawf dau gam ar waith. Yn gyntaf, rydym yn ystyried a oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r Cod fod wedi'i dorri. Yn ail, rydym yn ystyried a yw cynnal ymchwiliad i'r materion y cwynir amdanynt er budd y cyhoedd. Rydym yn ystyried sawl ffactor budd y cyhoedd megis:

- difrifoldeb yr ymddygiad honedig
- a yw'r aelod wedi camddefnyddio safle o ymddiriedaeth neu wedi ceisio ennill, drostynt eu hunain neu eraill, ar draul y cyhoedd
- a oes angen ymchwilio i gynnal hyder y cyhoedd mewn aelodau etholedig

- a yw ymchwiliad yn gymesur o dan yr amgylchiadau neu, a fyddai cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn briodol, pe gaiff ei brofi.

## Fy Mhenderfyniad

**(1) A oes tystiolaeth i awgrymu a fu achosion o dorri'r Cod ymddygiad.**

Mae'r materion y cwynwyd amdanynt yn annhebygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod.

Wrth weithredu fel aelod etholedig a mynegi barn wleidyddol neu gynnal busnes gwleidyddol, mae rhyddid mynegiant aelod yn cael gwell amddiffyniad, yn fwy felly nag aelod cyffredin o'r cyhoedd. Ymhellach, fel gwleidyddion, mae'n debygol y bydd aelodau'n cael eu hamddiffyn hyd yn oed lle gall yr iaith a ddefnyddir ganddynt fod yn ymfflamychol, ar yr amod bod ei ffocws yn wleidyddol. Ond nid yw hawl aelod i ryddid mynegiant yn absoliwt a rhaid ei gydbwyso yn erbyn yr angen i ddiogelu hawliau a buddiannau eraill. Nid yw'r egwyddorion cyfreithiol ar y mater hwn yn darparu ffiniau clir ar gyfer yr hyn sydd, a'r hyn nad yw, yn dderbyniol, a rhaid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Nid yw rhyddid mynegiant yn ddiderfyn a'r mwyaf tramgwyddus yw'r ymddygiad dan sylw, y mwyaf cyfiawn y daw i gyfyngu ar fynegiant gan ddefnyddio darpariaethau'r Cod Ymddygiad.

Mae'r hunan-gyfeiriad yn cydnabod bod y sylwadau wedi eu gwneud yn ystod cyfarfod o'r Cyngor. Yn gyffredinol, mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod angen "croen trwchus" ar aelodau yn ystod cyfnewidiadau gwleidyddol. Mae Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sy'n rhoi'r hawl i'r Aelod lefaru'n rhydd, yn golygu y gall ddweud pethau a allai fod yn frawychus neu'n dramgwyddus i rai pobl. Er fy mod yn llwyr werthfawrogi y gallai'r rhai a oedd yn bresennol fod wedi cael eu tramgwyddo'n bersonol gan sylwadau'r Aelod, nid wyf yn ystyried, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, eu bod yn ddigon tramgwyddus, bygythiol neu sarhaus i thorri'r Cod.

Rwy'n cydnabod bod gan y sylwadau a wnaed y potensial i droseddu'r Aelod dan sylw, yn enwedig os nad oeddent yn adlewyrchu ei ddelfrydau gwleidyddol. Yn ogystal, gwnaeth yr aelod sylwadau wrth hunangyfeirio'r mater i'r swyddfa hon ynghylch pam nad oedd yn teimlo y gallai ymgysylltu â phroses datrys lleol y Cyngor. Mae hyn yn peri pryder oherwydd bod perfformiad effeithiol cyngor yn dibynnu ar pherthynas da rhwng ei aelodau ac eu fod yn dangos parch at ei gilydd. Fyddai'r broses datrys leol wedi bod yn fforwm addas ar gyfer trafod y mathau hyn o bryderon. Bydd fy ymateb i'r Aelod yn ei atgoffa o hyn a'i rwymedigaethau o dan y Cod.

**(2) A oes angen ymchwilio er budd y cyhoedd**

Nid wyf yn argyhoeddedig y byddai'r cynnwys yn cael ei ystyried mor sarhaus fel bod cyfyngu ar wneud sylwadau o'r fath yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn hawliau a buddiannau pobl eraill. Felly, rwy'n fodlon bod y sylwadau a wnaed yn rhan o ddadl wleidyddol ehangach ac mae gan yr Aelod hawl i gynnal a rhannu'r safbwyntiau hynny, hyd yn oed os nad yw eraill yn cytuno, neu'n wir, yn cael eu tramgwyddo ganddynt. Felly, rwyf o'r farn na fyddai ymchwiliad i'r mater hwn yn briodol.

Nid yw'r ymddygiad y cwynir amdano yn bodloni cam cyntaf y prawf, fel y nodir uchod, felly, nid oes angen ystyried ail gam y prawf.

## Canlyniad

Ni ddylid ymchwilio i'r gŵyn.



**Matthew Phelps** 6 Rhagfyr 2023
Swyddog Ymchwilio



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **19 Chwefror 2024** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2022-23** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |

Cefndir

1. Bydd aelodau'n ymwybodol mai rôl Panel Dyfarnu Cymru yw ffurfio tribiwnlysoedd achos i ystyried honiadau yn erbyn aelodau o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn derbyn honiadau o'r fath mewn dwy ffordd – naill ai yn uniongyrchol gan yr Ombwdsmon neu ar ffurf apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau.

2. Atodir copi o Adroddiad Blynyddol y Panel er sylw'r Pwyllgor.

Argymhelliad

3. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

# Panel Dyfarnu Cymru
# Adroddiad Blynyddol

## Blwyddyn 2022 – 2023

PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Amdanom ni | 4 |
| **Adran 2** | Perfformiad a Chynnydd | 8 |
| **Adran 3** | Crynodebau o achosion | 12 |
| **Adran 4** | Blaenoriaethau Busnes | 16 |
| **Adran 5** | Gwariant | 17 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47910, ISBN digidol 978-1-83504-415-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma fy wythfed adroddiad fel Llywydd Panel Dyfarnu Cymru, a hwn fydd fy adroddiad olaf. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Ein nod yw sicrhau bod y Panel yn gwasanaethu buddiannau'r cyhoedd drwy ymdrin ag unrhyw anghydfod yn effeithlon ac yn effeithiol. Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r anghydfod yn teimlo ei fod wedi cael ei ddatrys yn deg ac mor gyflym ag sy'n rhesymol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus y bydd unrhyw dorri ar amodau'r Cod Ymddygiad gan aelodau yn cael ei drin yn deg ac mewn modd amserol er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder mewn democratiaeth leol.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi parhau i fod yn un gymharol brysur i'r Panel; er hynny, mae'n rhy fuan i benderfynu a fydd y dyletswyddau ar arweinwyr grwpiau'r cynghorau yn arwain at lai o honiadau o dorri ar amodau'r Cod Ymddygiad, neu a oes tuedd hirdymor o anawsterau cynyddol.

Rwyf bob amser wedi bod o'r farn bod cael y cyfle i arwain unrhyw lys neu dribiwnlys yn fraint ac anrhydedd aruthrol, ond yn aml mae'n well cyfyngu ar y cyfnod i sicrhau ffyrdd newydd o weithio neu syniadau newydd o adnewyddu a chryfhau'r corff barnwrol. Rwy'n gobeithio fy mod wedi dod â'r fath newydd-deb i'r Panel; fy nod oedd moderneiddio a datblygu ein harferion, ein dull a chrefft y barnwr. Rwy'n credu bod y nod hwnnw wedi'i gyflawni. Rwyf wedi trafod y newidiadau yr hoffwn eu gweld yn ein pwerau a'n Rheoliadau mewn amryw fforymau, ac rwy'n falch o nodi ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y materion hyn yn dilyn Adolygiad Penn ar y fframwaith Moesegol. Roeddwn hefyd yn ddiolchgar o glywed gan lawer o ddefnyddwyr pa mor ddefnyddiol oedd y Canllawiau Sancsiynau wedi'u diweddaru iddynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bopeth ddod i ben; rwy'n bwriadu rhoi'r gorau i'm swydd ar y Panel yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn parhau i sicrhau datblygiad ei ymarfer a'i weithdrefnau, a fydd yn hanfodol os bydd Llywodraeth Cymru yn creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru.

Rwy'n dymuno'r gorau i Lywydd newydd y Panel yn ei rôl heriol ond cyffrous. Hoffwn dalu teyrnged i aelodau'r Panel, y rhai presennol a'r cyn-aelodau, y Cofrestryddion, a'm rhagflaenydd fel Llywydd, y diweddar Peter J Davies. Yn ystod fy nghyfnod gwasanaeth, mae amrywiaeth eang o achosion wedi cael eu datrys gan y Panel; mae rhai wedi gweld datblygiadau annisgwyl, honiadau nad yw'r Panel yn annibynnol (wedi'i wrthbwyso gan gefnogaeth y Prif Weinidogion, y Cwnsler Cyffredinol ac aelodau o Senedd Cymru ac awdurdodau perthnasol), a phenderfyniadau ar y materion mwyaf dadleuol a chymhleth. Fe wnaethom hefyd wynebu'r heriau a ddaeth yn sgil pandemig byd-eang Covid-19. Drwy gydol y cyfan, dilynodd aelodau'r Panel esiampl ragorol fy rhagflaenydd a gwneud penderfyniadau cyfiawn a theg, gan esbonio pam fod pob tribiwnlys wedi dod i'w ddyfarniad, ac ar adegau pam roedd angen ymyrryd â phenderfyniad y pleidleiswyr i ethol yr unigolyn dan sylw. Wrth i mi ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni fu apêl lwyddiannus yn erbyn unrhyw un o'r achosion. Ni allwn fod wedi gofyn mwy gan aelodau'r Panel na'r weinyddiaeth. Maent wedi gor-gyflawni yn gyson drwy eu cefnogaeth i mi a'u caredigrwydd i'r holl ddefnyddwyr (rhinwedd nad yw'n cael ei ystyried yn aml iawn).

Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau neu wneud sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Panel, neu ar gynnwys yr Adroddiad, a dylid eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y Cofrestrydd. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd fy olynydd, pwy bynnag fydd ef neu hi, yr un mor awyddus â minnau i glywed gan unrhyw un â diddordeb.

**Claire Sharp**
**Llywydd, Panel Dyfarnu Cymru**

# Adran 1 – Amdanom Ni

Yn yr adran hon:

- Sail ar gyfer PDC
- Swyddogaeth PDC
- Rheoliadau PDC
- Proses PDC
- Aelodau PDC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â PDC
- Defnyddio Panel Dyfarnu Cymru

## Y sail ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru

Mae Panel Dyfarnu Cymru (PDC) yn dribiwnlys annibynnol a sefydlwyd i benderfynu ar honiadau o dorri amodau Cod Ymddygiad statudol awdurdod gan aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig o gynghorau sir, bwrdeistrefi sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru.

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## Swyddogaeth y Panel

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r cod ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut y dylai aelodau ymddwyn, ac mae'n cynnwys gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swydd neu awdurdod.

Mae gan PDC ddwy swyddogaeth statudol mewn perthynas â thorri'r Cod Ymarfer:

- ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim ("Tribiwnlysoedd Achos") i ystyried **atgyfeiriadau** gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod;
- ystyried **apeliadau** gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad ("Tribiwnlysoedd Apêl").

## Rheoliadau Panel Dyfarnu Cymru

Mae'r Panel yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod pob achos a glywir gan y Panel yn cael eu trin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron y Panel yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i'r Panel. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau'r Panel yn cael eu llywodraethu gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (fe y'u diwygiwyd),
- Rheoliadau Archwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)).

## Proses y panel

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymateb i gyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Panel lenwi'r ffurflen berthnasol a'i hanfon at y Panel.

Mewn gwrandawiad o'r Panel bydd y panel yn cynnwys cadeirydd sy'n gymwys yn gyfreithiol a 2 aelod lleyg. Gall aelodau sydd wedi cymhwyso'n gyfreithiol hefyd eistedd fel aelodau lleyg. Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau'r Panel yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.


Mae'r Panel yn cyhoeddi ei benderfyniadau ar wefan Panel Dyfarnu Cymru. Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlysoedd Achos ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. I ddechrau, rhaid ceisio caniatâd gan yr Uchel Lys i apelio i'r Uchel Lys.

Rhoddir canllawiau a gwybodaeth lawn am y Panel a'i weithdrefnau ar wefan Panel Dyfarnu Cymru. Fel arall, cysylltwch â thîm gweinyddol y Panel i gael rhagor o wybodaeth neu os hoffech dderbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol. Mae'r manylion cysylltu i'w gweld ar dudalen 7.

## Aelodau Pwyllgor Dyfarnu Cymru

Mae penodiadau i'r Panel yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog Cymru ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

| | |
|---|---|
| **Llywydd** | Mae gan y Llywydd gyfrifoldeb barnwrol dros y Panel a'i aelodau. |
| **Dirprwy Lywydd** | Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei dyletswyddau, dros dro neu'n barhaol. |
| **Aelodau Cyfreithiol** | Mae aelodau cyfreithiol yn gyfreithwyr cymwysedig ac yn gyfrifol am gynnal trafodaethau mewn gwrandawiadau ac am gynghori'r tîm gweinyddol ar faterion cyfreithiol. Mae aelodau cyfreithiol yn ysgrifennu penderfyniadau'r Panel ac yn rhoi cyfarwyddiadau lle bo angen. |
| **Aelodau Lleyg** | Mae gan aelodau lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i waith y Panel. |
| **Y Tîm Gweinyddol** | Mae'r gweithrediadau bob dydd yn cael eu dirprwyo yn bennaf i'r tîm gweinyddol sy'n delio a'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Panel. Mae'r tîm gweinyddol yn ymgynghori â'r Llywydd a/neu'r aelodau cyfreithiol ynghylch yr holl bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod y camau rhagarweiniol cyn gwrando ar achosion, ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau. Mae'r tîm gweinyddol yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer cadeiryddion, aelodau a defnyddwyr y Panel, ac yn mynychu gwrandawiadau i helpu i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon. |



## Penodiadau

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi penodi 1 aelod lleyg newydd.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd seminar hyfforddi ar **13 Mai 2022**, gyda phwyslais parhaus ar grefft y barnwr, ynghyd â diweddariadau cyfraith achosion ac adolygiad o faterion gweithdrefnol.

## Cysylltu â Phanel Dyfarnu Cymru

I gysylltu â Thîm Gweinyddol Panel Dyfarnu Cymru:

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad y Panel: | Cofrestrydd y Panel<br>Panel Dyfarnu Cymru<br>Uned Tribiwnlysoedd Cymru<br>PO BOX 100<br>Llandrindod<br>LD1 9BW |
| Rhif ffôn: | 03000 259805 |
| E-bost: | adjudication.panel@llyw.cymru |

## Defnyddio Panel Dyfarnu Cymru

Mae'r Panel yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawiad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawiad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawiad, byddwn yn trefnu hynny.

Gwneir darpariaeth os bydd gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, unrhyw ofynion eraill o ran mynediad a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad.

Er mwyn gallu trefnu i gyfieithwyr/dehonglwyr fod yn bresennol neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan fynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r tîm gweinyddol ymlaen llaw.

# Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data gwrandawiadau
- Apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion


## Niferoedd ac Ystadegau

Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth. Gan fod nifer yr achosion a ddaw i law yn gymharol isel, rhoddir ffigurau am gyfnod o 5 mlynedd i ganiatáu cymharu.

Mae'r ystadegau canlynol yn cael eu casglu:


- Nifer yr atgyfeiriadau a'r apeliadau a ddaeth i law
- Y math o geisiadau a ddaeth i law ac a gofrestrwyd
- Nifer y ceisiadau a gwblhawyd yn derfynol
- Canlyniad y ceisiadau.

Graff 2.1: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau a ddaeth i law fesul blwyddyn Ebrill 2018 – Mawrth 2023





* Roedd ffigur 2018-2019 wedi'i nodi'n anghywir yn Adroddiad Blynyddol 2018-2019 ac mae wedi'i gywiro uchod.

Graff 2.2: Nifer yr atgyfeiriadau ac apeliadau y penderfynwyd arnynt yn ôl blwyddyn, Ebrill 2018 – Mawrth 2023





Siart 2.3: Canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau Ebrill 2018 – Mawrth 2023

Mae'r siart isod yn dangos canlyniadau atgyfeiriadau ac apeliadau a benderfynwyd gan y Panel Dyfarnu dros y 5 mlynedd diwethaf



Graff 2.4: Torri amodau yn ôl math, Ebrill 2018 – Mawrth 2023




## Data gwrandawiadau

Yn ystod 2022-2023:

| **Math** | **Hyd (mewn diwrnodau)** |
|---|---|
| Atgyfeiriad | 3 diwrnod gwrandawiad |
| Apêl | 0 diwrnod gwrandawiad |

Cynhaliwyd 4 cynhadledd rhestru mewn perthynas â'r achosion hyn.

## Apeliadau pellach

Gellir gwneud cais am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad Tribiwnlys Achos neu Dribiwnlys Achos Interim ar seiliau cyfyngedig i'r Uchel Lys. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, ni wnaed unrhyw geisiadau am ganiatâd.

## Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawiad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod).

## Cyflymder ein gwasanaeth 2022-2023

| | |
|---|---|
| **Targed:** wedi ymdrin â 95% o ymholiadau neu wedi derbyn 95% o achosion o fewn 10 diwrnod gwaith iddynt gyrraedd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i atebydd/apelydd o leiaf 15 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad a ohiriwyd | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 100% o hysbysiadau gwrandawiad wedi'u cyflwyno i dyst o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** 90% o'r penderfyniadau wedi'u cyhoeddi cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl y gwrandawiad | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |
| **Targed:** Rhyddhau 75% o'r ceisiadau cyn pen 12 mis | Cyrhaeddwyd y targed mewn 100% o'r achosion |

## Cwynion

Ni chafodd y Panel unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd dan sylw.

# Adran 3 – Crynodebau o Achosion

Yn yr adran hon:

- Atgyfeiriadau
- Apeliadau

## Atgyfeiriadau

### APW/008/2021-022/CT
### Cyngor Sir Penfro

Deilliodd yr honiadau o dair cwyn ar wahân. Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Penfro drwy fwlio neu aflonyddu ar unigolion ac ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod perthnasol. Canfu'r tribiwnlys achos yn unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi gweithredu fel yr honnwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Canfuwyd bod y cyn-gynghorydd wedi gwneud datganiadau ffug dro ar ôl tro am gynghorydd arall ac aelodau'r cyhoedd. Wrth wneud hynny, canfuwyd ei fod wedi bwlio'r cynghorydd arall, wedi aflonyddu ar aelod o'r cyhoedd, ac wedi dwyn anfri ar ei swydd ac ar yr awdurdod perthnasol.

Canfuwyd hefyd bod y cyn-gynghorydd wedi rhannu camwybodaeth ar-lein am gwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Llywodraeth Cymru, ac yna wedi ailadrodd hynny mewn e-bost at gyd-gynghorydd. Canfu'r tribiwnlys achos nad oedd sail i'r datganiadau hyn am y cwricwlwm ac wrth wneud yr honiadau, bod y cyn-gynghorydd yn fwriadol ac yn anonest wedi rhoi camwybodaeth i bobl i'w gwylltio; roedd hyn yn dwyn anfri ar ei swydd a/neu ar yr awdurdod perthnasol.

Canfuwyd bod y cyn-gynghorydd wedi awgrymu ar gam ac yn faleisus ar Facebook bod aelod arall o'r cyhoedd wedi gorfod cofrestru fel troseddwr rhyw. Yna ffugiodd dystiolaeth a roddwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn ymgais fwriadol i gamarwain yr ymchwiliad. Roedd hyn yn dwyn anfri ar ei swydd a/neu ar yr awdurdod perthnasol. Daeth y tribiwnlys achos i gasgliad unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am dair blynedd rhag bod yn aelod o awdurdod perthnasol.

### APW/009/2021-022/CT
### Cyngor Cymuned Llansantffraed

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod perthnasol. Gwrthododd y tribiwnlys achos ystyried a oedd hi wedi methu â rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall, neu unrhyw un sy'n gweithio i'r awdurdod neu ar ran yr awdurdod, yr oedd hi'n credu oedd ynghlwm ag ymddygiad troseddol, neu'n debygol o fod ynghlwm ag ymddygiad troseddol, ar y sail nad oedd paragraff 6(1)(b) yn cynnwys gofyniad i roi gwybod am ymddygiad troseddol cynghorydd ei hun.

Roedd y cyn-gynghorydd ynghlwm â digwyddiad yn ymwneud â chontractwr y cyngor, lle gyrrodd ei char yn gyflym ato ar dir preifat tra roedd yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Fe darodd ei char ddau blentyn yn ystod y digwyddiad; cafodd o leiaf un ohonynt niwed corfforol. Arhosodd y cyn-gynghorydd yn ei rôl fel Cynghorydd ar ôl y digwyddiad ac ar ôl pledio'n euog i'r drosedd o achosi niwed corfforol trwy yrru'n ddireol neu'n wyllt yn groes i Adran 35 o Ddeddf Troseddau yn erbyn y Person 1861; ni wnaeth ei chyd-gynghorwyr na'r Clerc roi gwybod am y mater i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafodd ddedfryd ohiriedig o 10 wythnos o garchar, a oedd gam yn llai nag anghymhwyso'n awtomatig rhag gyrru.

Canfu'r tribiwnlys achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad drwy ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar y swydd neu'r awdurdod (paragraff 6(1)(a)). Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei hanghymhwyso am flwyddyn rhag bod yn aelod o awdurdod perthnasol. Yn ogystal, argymhellodd fod holl gynghorwyr presennol Cyngor Cymuned Llansantffraed yn mynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn cyfnod o dri mis (i'w ddarparu gan y Swyddog Monitro, ei chynrychiolydd, Un Llais Cymru neu unrhyw ddarparwr priodol arall) i sicrhau eu bod yn deall y Cod Ymddygiad, gan gynnwys paragraff 6(1)(b); a bod y Cyngor yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i Glerc y Cyngor fynychu hyfforddiant o'r fath.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'n ymddangos nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r argymhellion o fewn yr amserlen ofynnol. Mae'r Gwasanaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am adrodd ar gydymffurfiaeth.

### APW/0010/2021-022/CT
### Cyngor Tref Pencoed

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod perthnasol.

Canfuwyd bod y cyn-gynghorydd wedi camarwain y Cyngor Tref ynghylch ei gymhwysedd i fod yn Gynghorydd, a'i fod wedi gwneud hyn yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth lofnodi'r datganiad o dderbyn swydd ac yn ystod y flwyddyn a'r 8 mis y bu'n gweithredu fel Cynghorydd. Nid oedd y cyn-gynghorydd yn gymwys i fod yn gynghorydd gan ei fod wedi'i gael yn euog o dair trosedd ym mis Gorffennaf 2015. Roedd wedi cael dedfryd ohiriedig o fwy na thri mis o garchar, heb yr opsiwn am ddirwy. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn gymwys i fod yn gynghorydd pan safodd i gael ei ethol yn 2018 ac roedd ei ddatganiad ei fod yn gymwys yn ffug.

Penderfynodd y Tribiwnlys Achos fod unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod, serch hynny yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad wrth barhau i weithredu yn rhinwedd y swydd honno. Canfu'n unfrydol fod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad drwy ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar y swydd neu ar yr awdurdod (paragraff 6(1)(a)) drwy sefyll i gael ei ethol ac aros yn ei swydd pan roedd wedi'i wahardd.

Canfu'r tribiwnlys achos yn unfrydol bod y cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad drwy ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar y swydd neu ar yr awdurdod (paragraff 6(1)(a)). Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am ddwy flynedd rhag bod yn aelod o awdurdod perthnasol.

APW/011/2021-022/CT
Cyngor Cymuned Sant Harmon

Yr honiadau oedd bod y cyn-gynghorydd wedi ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried sy'n dwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod perthnasol. Honnwyd ei bod wedi defnyddio neu geisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi mantais iddi hi ei hun neu i'w gŵr neu i osgoi anfantais iddi hi ei hun neu i'w gŵr, ei bod wedi mynychu cyfarfod o'r cyngor lle'r oedd busnes yr oedd ganddi fuddiant ynddo yn cael ei drafod ac na wnaeth ddatgelu bodolaeth a natur y buddiant hwnnw ar lafar cyn y cyfarfod neu ar ddechrau eitem honno, neu na wnaeth adael y cyfarfod lle roedd y busnes yr oedd ganddi fuddiant sy'n rhagfarnu ynddo yn cael ei drafod pan ddaeth y buddiant hwnnw i'r amlwg. Honnwyd ei bod wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch busnes lle roedd ganddi fuddiant sy'n rhagfarnu, a gwnaeth sylwadau llafar i gyfarfod a oedd yn ystyried busnes lle roedd ganddi fuddiant sy'n rhagfarnu.

Roedd y cyn-gynghorydd yn briod â Chadeirydd y Cyngor Cymuned. Cynhaliodd Archwilio Cymru ymchwiliad i'r Cyngor a lluniodd adroddiad a oedd yn feirniadol o'r Cadeirydd (beirniadwyd eraill hefyd). Cyfaddefodd y cyn-gynghorydd ei bod yn fwriadol wedi peidio â datgan ei buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd ei pherthynas â Chadeirydd y Cyngor pan ddaeth i ddau gyfarfod o'r Cyngor am yr adroddiad, a siarad yn y cyfarfodydd fel cynghorydd, na phan bleidleisiodd mewn un cyfarfod. Dywedodd iddi ymddwyn yn y fath fodd gan ei bod hi eisiau gallu amddiffyn ei gŵr gan mai "ei gŵr oedd yn dod yn gyntaf" pan roedd gwrthdaro rhyngddo ef a'i dyletswyddau cyhoeddus hi fel cynghorydd.

Canfu'r Tribiwnlys Achos drwy benderfyniad unfrydol fod y cyn-gynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad fel a ganlyn:

- Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei hystyried sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod (paragraff 6(1)(a));
- Yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, rhaid ichi beidio â defnyddio neu geisio defnyddio'ch safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw berson arall, (paragraff 7(a));
- Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg (paragraff 11(1));
- Os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ollyngiad gan bwyllgor safonau eich awdurdod –
  (a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal..."(paragraff 14(1)(a)); …
  (c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw (paragraff 14(1)(c)); …
  (e) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw sylwadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

Daeth y Tribiwnlys Achos i'r casgliad unfrydol y dylai'r cyn-gynghorydd gael ei anghymhwyso am flwyddyn rhag bod yn aelod o awdurdod perthnasol.

## Apeliadau

### APW/012/2022-023/CT
### Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Cymuned Brymbo

Gwrthodwyd caniatâd i apelio gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar y sail bod y cynghorydd wedi methu â chyflwyno ei gais o fewn y terfyn amser statudol.

# Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2022-2023

Mae'n bwysig bod Panel Dyfarnu Cymru yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd PDC yn adeiladu ar ei lwyddiannau trwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n cwsmeriaid.

## Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2022-2023

- Cynllunio a chyflwyno digwyddiad hyfforddi i bob aelod;
- Parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, gan fodloni dangosyddion perfformiad allweddol;
- Penodi Llywydd newydd i Banel Dyfarnu Cymru;
- Yn dilyn canlyniad adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar dribiwnlysoedd Cymru a'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol, a Phapur Gwyn Llywodraeth Cymru mewn ymateb, gweithredu unrhyw newidiadau fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwrfa.

# Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon:

- Gwariant ar gyfer 2022-2023

## Gwariant ar gyfer 2022-2023

| Cynnwys | Swm |
|---|---|
| Ffioedd a Threuliau Aelodau (achosion a hyfforddiant) | £30,210 |
| Digwyddiadau Tribiwnlys (costau gwrandawiad a chostau eraill) | £5,416 |
| **Cyfanswm** | **£35,626** |

wedi'u talgrynnu i'r £1 agosaf